

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i'r Brifysgol asesu effaith ei holl bolisiâu ar:

- Y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yn y cyd-destun hwn, mae 'polisi' yn cael ei ddehongli'n eang ac mae'n cynnwys strategaethau, ailstrwythuro, systemau newydd ac ati.

Mae'n ofynnol gwneud 'ymdrech gydwybodol' i ddeall effaith polisi ar y Gymraeg. Ystyriwch yr effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol gan gyfeirio at dystiolaeth i gefnogi'r asesiad. Mae'r dystiolaeth y gallwch gyfeirio ati yn cynnwys, er enghraifft, data sgiliau iaith, data astudio drwy'r Gymraeg, cadw at y Cod Ymarfer ar Benodi Staff, trafodaethau mewn pwyllgorau, ymgynghori â myfyrwyr a staff. Gall Canolfan Bedwyr ddarparu arweiniad pellach i chi. Cysylltwch â Dr Lowri Hughes l.a.hughes@bangor.ac.uk.

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud eich asesiad a chofnodi effaith eich penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Dylai hon fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddarw wrth i'r penderfyniad polisi ddatblygu. Mae cadw cofnodion yn bwysig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.

Enw'r Polisi:	Cynllun Diogelu Myfyrwyr
Coleg / Ysgol / Adran:	Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd: Y Gofrestrfa
Aelod(au) staff sy'n cwblhau'r asesiad effaith ar y Gymraeg:	Dr Beth Edwards

RHEOLI'R DDOGFEN

Rhif y Fersiwn	Dyddiad Cwblhau	Pwy fu yn ei thrafod	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	20/01/2026	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd	Dogfen newydd.

CAPASITI STAFFIO DWYIEITHOG	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Niwtral	Effeithiau Negyddol	Amherthnasol
Effeithiau Uniongyrchol	Mae'r Cynllun yn cynnwys ymgynghori â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol lle mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei heffeithio, gan gefnogi cynllunio gweithlu gwybodus a defnyddio staff academaidd a phroffesiynol sy'n siarad Cymraeg.	Mae'r Cynllun yn ymrwymo'r Brifysgol yn benodol i sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn derbyn cyfathrebiadau a chefnogaeth yn eu dewis iaith yn ystod cyfnodau o newid, sy'n atgyfnerthu'r angen am gapasiti staffio dwyieithog digonol.		
Effeithiau Anuniongyrchol	Nid yw'r Cynllun yn cyflwyno strwythurau staffio newydd nac yn newid prosesau recriwtio presennol; felly, nid yw'n newid lefelau staffio dwyieithog yn uniongyrchol.	Drwy ymgorffori diogelwch cyfrwng Cymraeg o fewn rheoli risg sefydliadol a chynllunio wrth gefn, mae'r polisi'n cefnogi ystyriaeth hirdymor o sgiliau Cymraeg wrth reoli ailstrwythuro, cau rhaglenni, neu newidiadau i'r ddarpariaeth.		

Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol	Parhau i ymgysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi parhad staffio cyfrwng Cymraeg.	Sicrhau bod sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn benodol wrth gynllunio dirwyn addysgu i ben.		
Camau i leihau effeithiau negyddol	Monitro capasiti'r iaith Gymraeg yn ystod newidiadau. Lle bo angen, rhoi trefniadau dros dro ar waith i gynnal goruchwyliaeth ac addysgu cyfrwng Cymraeg.	Os bydd y canlyniadau a amlinellir yn y cynllun hwn yn digwydd, mae risg bosibl i'r gallu i siarad Cymraeg os na chaiff hyn ei reoli'n weithredol. Mae'r risg hon wedi'i chydabod o fewn mesurau lliniaru'r Cynllun.		
Crynodeb a sylwadau pellach	At ei gilydd, mae gan y polisi effaith niwtral ar gapasiti staffio dwyieithog drwy gydnabod pwysigrwydd sgiliau Cymraeg wrth ddiogelu profiad myfyrwyr yn ystod newid, gan gydnabod a lliniaru risgiau posibl.			

DEFNYDDIO'R GYMRAEG: (cyfleoedd i staff, myfyrwyr, y cyhoedd)	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Niwtral	Effeithiau Negyddol	Amherthnasol
Effeithiau Uniongyrchol	Mae'r Cynllun yn ymrwymo i sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn derbyn cyfathrebiadau a chefnogaeth yn y Gymraeg yn ystod newidiadau sefydliadol neu i raglenni.	Nid yw'r polisi'n cyflwyno gwasanaethau na llwyfannau newydd a fyddai'n newid cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol.		
Effeithiau Anuniongyrchol	Mae cyhoeddi'r Cynllun Diogelu Myfyrwyr yn cefnogi tryloywder ac yn atgyfnerthu disgwyliadau cyfathrebu dwyieithog.	Mae arferion cyfathrebu cynnar, tryloyw sydd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun yn cryfhau'r diwylliant sefydliadol o gynnig y Gymraeg yn rhagweithiol.		
Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol	Cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg mewn prosesau ymgynghori sy'n	Sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau â myfyrwyr sy'n deillio o'r Cynllun Diogelu Myfyrwyr		

	gysylltiedig â newid i raglenni.	yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog fel ymarfer safonol.		
Camau i leihau effeithiau negyddol	Defnyddio safonau cyfathrebu dwyieithog presennol a thynnu sylw at enghreifftiau o ymarfer gorau.			
Crynodeb a sylwadau pellach	Mae'r polisi'n cefnogi ac yn atgyfnerthu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cyd-fynd â'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.			

DARPARIAETH ACADEMAIDD TRWY'R GYMRAEG	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Niwtral	Effeithiau Negyddol	Amherthnasol
Effeithiau Uniongyrchol	Mae'r risgiau a nodwyd yn cynnwys gostyngiad yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda mesurau lliniaru clir megis cynnal modiwlau allweddol a	Mae'r Cynllun Diogelu Myfyrwyr yn ymrwymo'n benodol i ddiogelu addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau nad yw newidiadau i raglenni yn	Mewn amgylchiadau eithriadol (e.e. cau rhaglenni), efallai y bydd effeithiau anochel ar lwybrau addysg cyfrwng Cymraeg; fodd bynnag,	

	chysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.	effeithio'n anghymesur ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.	mae'r rhain yn cael eu cydnabod a'u lliniaru o fewn y cynllun.	
Effeithiau Anuniongyrchol	Integreiddio diogelu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i gynllunio wrth gefn sefydliadol.	Nid yw'r Cynllun yn creu nac yn dileu rhaglenni cyfrwng Cymraeg; mae'n darparu fframwaith ar gyfer rheoli newid lle mae darpariaeth o'r fath eisoes yn bodoli.		
Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol	Cymhwyso'r broses cynllunio dirwyn addysgu i ben yn drylwyr i raglenni cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau parhad hyd at eu cwblhau lle bo modd.	Cynnal goruchwyliaeth drwy'r Senedd a'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr.		
Camau i leihau effeithiau negyddol		Nodi risgiau i fodiwlau cyfrwng Cymraeg yn gynnar a chynllunio rhagweithiol i osgoi newidiadau munud olaf.		

Crynodeb a sylwadau pellach	Mae'r polisi'n niwtral o ran darpariaeth academiaidd cyfrwng Cymraeg gan fod diogelu, lliniaru ac ymgynghori allanol wedi'u hymgorffori yn y broses o wneud penderfyniadau.
------------------------------------	---

GWASANAETHAU CYMRAEG	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Niwtral	Effeithiau Negyddol	Amherthnasol
Effeithiau Uniongyrchol	Nid yw'r polisi'n newid strwythur gwasanaethau Cymraeg ond mae'n dibynnu ar fframweithiau gwasanaethau presennol.	Mae'r Cynllun yn ymrwmo i sicrhau y gall myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth, gweithdrefnau cwyno ac apelio, a chynghor yn eu dewis iaith yn ystod cyfnodau o newid.	Gallai galw cynyddol am gefnogaeth i fyfyrwyr yn ystod newid roi pwysau ar gapasiti gwasanaethau Cymraeg os na chaiff ei fonitro.	
Effeithiau Anuniongyrchol		Mae'r pwyslais ar gefnogaeth deg i bob myfyriwr, gan gynnwys y rhai sy'n astudio drwy bartneriaid, yn atgyfnerthu disgwyliadau ynghylch darparu		

		gwasanaethau Cymraeg ar draws ffiniau sefydliadol.		
Camau i gynyddu effeithiau cadarnhaol	Monitro'r galw am gefnogaeth Gymraeg yn ystod cyfnodau o newid nodedig.	Sicrhau bod sefydliadau partner yn ymwybodol o ddisgwyliadau gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Bangor lle bo'n berthnasol.		
Camau i leihau effeithiau negyddol		Defnyddio llwybrau atgyfeirio clir at wasanaethau cefnogaeth Cymraeg a Chanolfan Bedwyr pan fo angen cyngor arbenigol.		
Crynodeb a sylwadau pellach	Mae'r polisi'n cefnogi gwasanaethau Cymraeg ac yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg drwy sicrhau mynediad, tegwch a pharhad.			